



## Abergelli Power Ltd

**Hysbysiad o dan Adran 56 Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Rhagnodedig) 2009**

**Hysbysiad o dderbyn cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorchymyn Gorsaf Cynhyrchu Tanwydd Nwy Abergelli Power**

**Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010069**

1. Hysbysir trwy hyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ("Ysgrifennydd Gwladol") wedi derbyn cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") a wnaed gan Abergelli Power Ltd ("APL") o Drax Power Station, Drax, Selby, Gogledd Swydd Efrog, YO8 8PH o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (y "Cais"). Cyflwynwyd y Cais i'r Ysgrifennydd Gwladol (trwy'r Arolygiaeth Gynllunio) ar ddydd Gwener 25<sup>ain</sup> Mai 2018 ac fe'i derbyniwyd i'w archwilio ar ddydd Lau 21<sup>ain</sup> Mehefin 2018. Y cyfeirnod a roddwyd i'r Cais gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yw EN010069.
2. Mae APL yn bwriadu adeiladu a gweithredu gorsaf cynhyrchu pŵer brig Tyrbin Nwy Cylch Agored ("OCGT") (y "Gwaith Cynhyrchu Pŵer") o hyd at 299 Megawat ("MW") a chysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir yn Fferm Abergelli, Abertawe, Cymru (y "Prosiect"). Mae'r Cais yn ceisio caniatâd i adeiladu, gweithredu a chynnal y Gwaith Cynhyrchu Pŵer (y "datblygiad awdurdodedig"). Yn ogystal, mae'r Cais yn ceisio awdurdodi caffael tir a hawliau dros dir, a diddymu neu atal, neu ymyrryd â, buddiannau mewn tir neu hawliau dros dir er mwyn hwyluso gwaith adeiladu a gweithredu'r Prosiect.
3. Byddai'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys yr elfennau canlynol:
  - Cyfarpar Cynhyrchu gan gynnwys un Generadur Tyrbin Nwy ag un stac fflw nwy gwag a'r Cydrannau Ategol a'r Systemau Cynorthwyol (BOP) (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Cyfarpar Cynhyrchu"), sydd wedi'u lleoli ar "Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu";
  - Ffordd Fynediad i Safle'r Prosiect o'r B4489 a leolir tua'r gorllewin, i'w ffurfio drwy uwchraddio ffordd fynediad bresennol rhwng cyffordd B4489 ac Isorsaf Gogledd Abertawe (yr "Isorsaf") ac adeiladu rhan newydd o ffordd fynediad o'r Isorsaf i Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu;
  - Safle adeiladu dros dro i storio deunyddiau, offer a chyfarpar, yn ogystal â chynnwys cyfleusterau lles a llety'r safle, manau parcio dros dro a ffensys dros dro (yr "Ardal Storio"). Cedwir ardal fach o fewn yr Ardal Storio yn barhaol (y "Safle Cynnal");
  - Ardal Lliniaru Effaith ar Ecoleg - ardal ar gyfer gwelliannau ecolegol o fewn Ffin Safle'r Prosiect; a
  - Parcio a draenio parhaol i gynnwys: system draenio dŵr brwnt ac olewaidd a dŵr arwyneb.
4. Mae'r datblygiad awdurdodedig yn cynnwys gorsaf cynhyrchu trydan ar y tir yng Nghymru â chapasiti dros 50MW, felly mae'n brosiect seilwaith cenedlaethol sylweddol ("NSIP") o dan Adran 15 (2) Deddf Cynllunio 2008. Yn unol â hynny, mae angen caniatâd datblygu o dan Adran 31 Deddf Cynllunio 2008.
5. Mae'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol yn cynnwys datblygiad sy'n gysylltiedig â'r NSIP ("datblygiad cysylltiedig") na ellir rhoi caniatâd datblygu iddo yn unol ag Adran 115 Deddf Cynllunio 2008. Yn unol â hynny, bydd APL yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio neu'n dibynnu ar hawliau datblygu a ganiateir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA 1990") am ganiatâd i ddatblygu'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol.
6. Cyfeirir at y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy, y Cysylltiad Trydanol a'r holl ofynion mynediad fel y "Prosiect". Gyda'i gilydd, gelwir y Cyfarpar Cynhyrchu, Ardal Storio, Ffordd Fynediad, Ardal Lliniaru'r Effaith ar Ecoleg a manau parcio a draenio parhaol fel y "Gwaith Cynhyrchu Pŵer".
7. Cyfeirir at y tir y byddai'r Prosiect yn cael ei ddatblygu arno, neu a fyddai'n ofynnol er mwyn hwyluso datblygiad y Prosiect, fel "Safle'r Prosiect". Arwynebedd Safle'r Prosiect yw oddeutu 35ha.
8. Bydd y DCO, os caiff ei ganiatáu, yn awdurdodi adeiladu, gweithredu a chynnal y datblygiad awdurdodedig, ac ymhlith pethau eraill, byddai'n darparu ar gyfer y canlynol:
  - a) Caffaeliad gorfodol gan APL o dir a hawliau dros dir, gan gynnwys y gallu i greu hawliau newydd a gosod cyfamodau cyfyngol dros dir, sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect a'r gallu i feddiannu a defnyddio tir dros dro at ddibenion adeiladu, gweithredu a chynnal y Prosiect;

- b) Atal neu ddileu hawliau preifat neu gyfamodau cyfyngol dros dir sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal y Prosiect;
- c) Gwaredu coed a pherthi o fewn Safle'r Prosiect yn ôl y gofyn.
- d) Gwaith lliniaru tirlunio ac ecolegol;
- e) Atal dros dro neu reoli'r briffordd gyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus a gwaith stryd fel y'i disgrifir yn y Cais;
- f) Newidiadau i'r rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus ac adeiladu mynedfeydd dros dro a pharhaol i'r Prosiect fel y'u disgrifir yn y Cais; a
- g) Gweithredu a/neu anweithredu deddfwriaeth berthnasol yn ôl y gofyn.

#### Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

9. Ystyrir y Prosiect yn ddatblygiad EIA o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 ("Rheoliadau EIA 2009"). Mae hyn yn golygu bod y Prosiect yn ddatblygiad y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ("EIA") ar ei gyfer. Cyflwynir Datganiad Amgylcheddol, felly, gyda'r cais. Dylid nodi bod y Prosiect yn dod o dan Reoliadau EIA 2009 ac nid Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau EIA 2017). Mae hyn oherwydd y gofynnwyd am farn cwrpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau EIA 2009 a chyn i Reoliadau EIA 2017 ddod i rym. Golyga hyn, yn unol â darpariaethau trosiannol Rheoliad 37 (2) (a) Rheoliadau EIA 2017, y bydd Rheoliadau EIA 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i'r Prosiect.

#### Copiâu o'r Cais

10. Bydd copi o'r Ffurflen Gais a'r dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau cysylltiedig (gan gynnwys y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r Datganiad Amgylcheddol) ar gael tan ddydd Iau, 2<sup>il</sup> Awst 2018 i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y manau canlynol (gall oriau agor amrywio):

Lleoliadau	Oriau Agor
<b>Llyfrgell Ganolog Abertawe</b> Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN	Ar gau ar ddydd Llun Dydd Mawrth i ddydd Gwener, 8:30am-8:00pm Dydd Sadwrn a dydd Sul, 10:00am-4:00pm
<b>Llyfrgell Clydach</b> 54-56 Y Stryd Fawr, Clydach, Abertawe, SA6 5LN	Dydd Llun i ddydd Iau, 9:30am-5:30pm Dydd Gwener, 9:30am-6:30pm Dydd Sadwrn, 9:30am-4:30pm Ar gau ar ddydd Sul
<b>Llyfrgell Pontarddulais</b> 12 Rhodfa San Mihangel, Pontarddulais, Abertawe SA4 8TE	Dydd Llun i ddydd Iau, 9:00am-1:00pm a 2:00pm-5:00pm Dydd Gwener, 9:00am-1:00pm a 2:00pm-6:00pm Dydd Sadwrn, 9:00am-1:00pm Ar gau ar ddydd Sul

11. Mae'r ffurflen Gais a'r dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau cysylltiedig hefyd ar gael ar-lein ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>
12. Gellir prynu copiâu o'r ffurflen Gais a'r dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau cysylltiedig, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, gan APL gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd yr hysbysiad hwn. Gellir cael copi papur o'r gyfres lawn o ddogfennau'r Cais am dâl copïo rhesymol hyd at uchafswm o £500. Fel arall, gellir cael copi electronig o'r gyfres lawn o ddogfennau'r Cais am £25. Fel arall, mae copiâu o ddogfennau unigol hefyd ar gael ar gais, ac efallai y bydd angen talu amdanynt.

#### Gwneud sylwadau ar y Prosiect

13. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau (gan roi rhybudd o unrhyw fuddiant yn y Cais neu unrhyw wrthwynebiad iddo) ar Ffurflen Cofrestru a Sylwadau Perthnasol yr Arolygiaeth Gynllunio, y gellir ei chael a'i chwblhau ar-lein yn: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>
14. Os hoffech gopi papur o Ffurflen Cofrestru a Sylwadau Perthnasol yr Arolygiaeth Gynllunio, ffoniwch 0303 444 5000. Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau at Yr Arolygiaeth Gynllunio, National Infrastructure Directorate, Temple Quay House, Temple Quay, Bryste BS1 6PN. Dylid dyfynnu cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y Cais (EN010069) mewn unrhyw ohebiaeth.
15. Mae 'Hysbysiad Cyngori'r Arolygiaeth Gynllunio 8.2: Sut i gofrestru i gymryd rhan mewn Archwiliad' yn rhoi cyfarwyddyd pellach ar sut i gofrestru a gwneud sylwadau perthnasol (Rhagfyr 2016), ac mae ar gael yn: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes>
16. Sylwer bod rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn sylwadau erbyn **11:59pm ar ddydd Iau, 2<sup>il</sup> Awst 2018**. Cofiwch ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Arolygiaeth Gynllunio drefnu bod yr wybodaeth a ddarperir gennych mewn unrhyw sylwadau ar gael i'r cyhoedd. Cyhoeddir manylion ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio, a fydd wedi'u cyfyngu i'ch enw a thestun eich sylwadau. Fodd bynnag, bydd copiâu ar gael i'w harchwilio mewn lleoliadau cyhoeddus, a byddant yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Mae rhagor o wybodaeth am y Prosiect ar gael gan APL:

Rhif ffôn: 01792 957 026

Gwefan: [www.abergellipower.co.uk](http://www.abergellipower.co.uk)

E-bost: [info@abergellipower.co.uk](mailto:info@abergellipower.co.uk)

Post: Freepost ABERGELLI POWER

26 Mehefin 2018



**Abergelli Power Limited**

**Notice under Section 56 Planning Act 2008 and Regulation 9 of The Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009**

**Notice of acceptance of an application for a Development Consent Order for the Abergelli Power Gas Fired Generating Station Order**

**Planning Inspectorate reference: EN010069**

1. Notice is hereby given that the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy ("Secretary of State") has accepted an application for a Development Consent Order ("DCO") made by Abergelli Power Limited ("APL") of Drax Power Station, Drax, Selby, North Yorkshire, YO8 8PH under the Planning Act 2008 (the "Application"). The Application was submitted to the Secretary of State (via the Planning Inspectorate) on Friday 25<sup>th</sup> May 2018 and accepted for examination on Thursday 21<sup>st</sup> June 2018. The reference number applied by the Planning Inspectorate, on behalf of the Secretary of State, to the Application is EN010069.
2. APL proposes to construct and operate an Open Cycle Gas Turbine ("OCGT") peaking power generating station (the "Power Generation Plant") of up to 299 Megawatts ("MW") and new connections to the gas and electricity networks on land at Abergelli Farm, Swansea, Wales (the "Project"). The Application seeks consent for the construction, operation and maintenance of the Power Generation Plant (the "authorised development"). In addition, the Application seeks to authorise the acquisition of land and rights over land, and the extinguishment or suspension of, or interference with, interests in or rights over land in order to facilitate the construction and operation of the Project.
3. The Power Generation Plant would comprise the following elements:
  - Generating Equipment including one Gas Turbine Generator with one exhaust gas flue stack and Balance of Plant (BOP) (together referred to as the "Generating Equipment") which are located within the "Generating Equipment Site";
  - An Access Road to the Project Site from the B4489 which lies to the west, formed by upgrading an existing access road between the B4489 junction and the Swansea North Substation (the "Substation") and constructing a new section of access road from the Substation to the Generating Equipment Site; and
  - A temporary construction compound for the storage of materials, plant and equipment as well as containing site accommodation and welfare facilities, temporary car parking and temporary fencing (the "Laydown Area"). A small area within the Laydown Area will be retained permanently (the "Maintenance Compound").
  - Ecological Mitigation Area – area for ecological enhancement within the Project Site Boundary
  - Permanent parking and drainage to include: a site foul, oily water and surface water drainage system.
4. The authorised development comprises an onshore electricity generating station in Wales with a capacity of over 50MW and therefore it constitutes a nationally significant infrastructure project ("NSIP") under section 15(2) of the Planning Act 2008. Accordingly, it requires development consent under section 31 of the Planning Act 2008.
5. The Gas Connection and Electrical Connection comprise development associated with the NSIP ("associated development") which cannot be granted development consent pursuant to section 115 of the Planning Act 2008. Accordingly, APL will apply for planning permission or rely on permitted development rights under the Town and Country Planning Act 1990 ("TCPA 1990") for consent to develop the Gas Connection and Electrical Connection.
6. The Power Generation Plant, Gas Connection, and Electrical Connection, together with all access requirements are referred to as the "Project". The Generating Equipment, Laydown Area, Access Road, Ecological Mitigation Area and permanent parking and drainage are together known as the "Power Generation Plant".
7. The land upon which the Project would be developed, or which would be required in order to facilitate the development of the Project, is referred to as the "Project Site". The Project Site is approximately 35 ha in area.
8. The DCO will, if granted, authorise the construction, operation and maintenance of the authorised development and would, amongst other things, make provision for the following:
  - a) The compulsory acquisition by APL of land and rights over land including the power to create new rights and impose restrictive covenants over land, required for the Project and the power to take possession of and use land temporarily for the purpose of constructing, operating and maintaining the Project;

- b) The suspension or extinguishment of private rights or restrictive covenants over land required for the construction, operation and maintenance of the Project;
- c) Tree and hedge removal within the Project Site as required;
- d) Landscaping and ecological mitigation works;
- e) The temporary stopping up or management of the public highway and public rights of way and street works as described in the Application;
- f) Alterations to the public highway network and the construction of temporary and permanent accesses to the Project as described in the Application; and
- g) The application and/or disapplication of relevant legislation as may be required.

### Environmental Impact Assessment (EIA)

9. The Project is classified as EIA development under the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009 (EIA Regulations 2009). This means that the Project constitutes development for which an Environmental Impact Assessment ("EIA") is required. The Application is therefore accompanied by an Environmental Statement. It should be noted that the Project falls under the EIA Regulations 2009 and not the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (EIA Regulations 2017). This is because a scoping opinion was requested from the Secretary of State under the EIA Regulations 2009 before the commencement of the EIA Regulations 2017. This means that, in accordance with the transitional arrangements at Regulation 37 of the EIA Regulations 2017, the EIA Regulations 2009 will continue to apply to the Project.

### Copies of the Application

10. A copy of the Application form and its accompanying documents, plans and maps (including the draft Development Consent Order and the Environmental Statement) are available until Thursday 2<sup>nd</sup> August 2018 for inspection free of charge at the following places (opening times may vary):

Locations	Opening Times
<b>Swansea Central Library</b> Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea, SA1 3SN	Mon Closed Tues – Fri 8.30am – 8pm Sat & Sun 10am – 4pm
<b>Clydach Library</b> 54-56 High Street, Clydach, Swansea, SA6 5LN	Mon – Thurs 9.30am – 5.30pm Fri 9.30am – 6.30pm Sat 9.30am – 4.30pm Sun Closed
<b>Pontarddulais Library</b> 12 St Michael's Avenue, Pontarddulais, Swansea, SA4 8TE	Mon – Thurs 9am – 1pm & 2pm – 5pm Fri 9am – 1pm & 2pm – 6pm Sat 9am – 1pm Sun Closed

9. The Application form and its accompanying documents, plans and maps are also available to view online through the Planning Inspectorate's website: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>
10. Copies of the Application form and the accompanying documents, plans and maps, including the Environmental Statement, may be purchased from APL by using the contact details at the end of this notice. A paper copy of the full suite of Application documents can be obtained for a reasonable copying charge up to a maximum of £500 for the full suite of Documents. Alternatively, an electronic copy of the full suite of Application documents can be obtained for £25. Copies of individual documents are also available on request and a charge may apply.

### Making representations about the Project

11. Any representations (giving notice of any interest in or objection to the Application) must be made on the Planning Inspectorate's Registration and Relevant Representation Form which can be accessed and completed online by following the relevant link: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>
12. If you would like to request a paper copy of the Planning Inspectorate Registration and Relevant Representation Form, please telephone 0303 444 5000. Completed forms should be sent to The Planning Inspectorate, National Infrastructure Directorate, Temple Quay House, Temple Quay, Bristol BS1 6PN. The Planning Inspectorate reference for the Application (EN010069) should be quoted in any correspondence.
13. The Planning Inspectorate's Advice Notice 8.2: How to register to participate in an Examination, provides further guidance on how to register and make a relevant representation (December 2016) and can be accessed via the following link: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes>
14. Please note that representations must be received by the Planning Inspectorate by **11.59pm on Thursday 2<sup>nd</sup> August 2018**. Please be aware that the Planning Inspectorate is required by law to make the information that you provide in any representation publicly available. Details will be published on the Planning Inspectorate website and will be restricted to your name and the text of your representation. However, copies made available for inspection at public locations will contain your contact details.

Further information about the Project may be obtained from APL:

Telephone: 01792 957 026

Website: [www.abergellipower.co.uk](http://www.abergellipower.co.uk)

Email: [info@abergellipower.co.uk](mailto:info@abergellipower.co.uk)

Post: Freepost ABERGELLI POWER

26 June 2018